*'Sir Watkin Williams Wynn Bart to Richd Wilson Dr. June 5th 1770*

*. . . .*

| | |
|---|---|
| *To the large View near Winst(ay)* | *210.0.0* |
| *Its companion 8f by 6* | *210.0.0* |
| *Total* | *580.0.0* |
| *Recd. Adv.* | *150.0.0* |
| *Balance* | *430.0.0* |

*Recd. July 3rd 1771 of Sir Watkin Wms Wynn by Saml. Sidebotham the above in full by me Richd. Wilson.*

O holl ddarluniau Wilson y rhai Cymreig sydd o ddiddordeb pennaf i ni heddiw ac mae'n dda gweld fod gan yr Amgueddfa Genedlaethol gasgliad sylweddol o'i weithiau. Mae'n debyg mai'r llun 'Y Wyddfa o Lyn Nantlle' sydd yn Oriel Walker yn Lerpwl yw'r un sydd yn cael ei ystyried y gorau ohonynt i gyd. Y mae yna fersiwn arall o'r un llun yn Nottingham hefyd. Tua 1766 yw'r dyddiad tebygol. Llun hynod arall yw 'Cader Idris, Llyn y Cau' sy'n dyddio o tua 1765-7. Mae copi diddorol o'r llun hwn yn yr Oriel Genedlaethol a'r hyn sydd yn ddiddorol yw'r posibilrwydd fod y llun hwn ym meddiant Wilson pan fu farw. Mae ei luniau o olygfeydd yng nghyffiniau Yr Wyddgrug ac yn nyffrynnoedd Mawddach, Hafren, Gwy a Dyfrdwy yn arbennig o drawiadol hefyd. Ni ddylid anghofio ei luniau o rai o gestyll Cymru ychwaith oherwydd y mae i'r rhain eto odidowgrwydd unigryw, yn arbennig felly yn achos Dolbadarn a Chaernarfon.

* * * *

ERBYN tua 1773, ac yntau bellach tua thrigain oed, mae'n ymddangos nad oedd Wilson yn llwyddo cystal fel arlunydd. Ni fedrai ofyn prisiau uchel am ei ddarluniau, yn wir câi drafferth i'w gwerthu o gwbl ar adegau. Mae'n debyg fod yna sawl rheswm am hyn, ar yr un llaw yr oedd y ffasiwn mewn darluniau fel mewn llawer maes arall wedi newid ac ar y llaw arall mae'n rhaid cofio fod Wilson ei hun yn heneiddio ac efallai fod ei waith wedi dirywio wrth i'w iechyd wanhau ac wrth iddo fwrw'r botel yn go drwm. Mae dyddlyfr o'i eiddo sydd yn awr ym meddiant Amgueddfa Fictoria ac Albert yn Llundain yn cadarnhau y dirywiad yn ei amgylchiadau — ceir cyfeiriad ato yn cael ei ryddhau o'r ysbyty ar 25 Tachwedd 1772, cyfeiriad ato yn cael gowt a nifer o gyfeiriadau ato'n newid llety ac angen arian i brynu paent a chynfas.

Ar 5 Chwefror 1776 fe'i penodwyd yn Llyfrgellydd y Royal Academy ar gyflog o £50 y flwyddyn. Nid oedd y cyflog yn fawr ond ar yr un pryd yr oedd yn rhoi pwrpas i'w fywyd ac mae'n sicr i'r arian fod yn fodd i'w gynnal mewn cyfnod dyrys yn ei fywyd. Erbyn 1781 yr oedd ei iechyd wedi dirywio i'r fath raddau fel y bu'n rhaid penodi Llyfrgellydd Cynorthwyol i roi help llaw iddo. Mae'n debyg fod hyn yn golygu mai tua'r adeg yma y gadawodd Lundain am y tro olaf a dychwelyd i Gymru at ei berthnasau.

At Catherine Jones, Colomendy, ger Llanferres, y dychwelodd. Merch Edward Jones, Colomendy, a'i wraig Margaret a oedd yn ferch i George Wynne, Coed-llai, oedd Catherine Jones. Os oedd Margaret Wynne ac Alice Wynne mam Richard Wilson yn ddwy chwaer yna roedd Catherine Jones yn gyfnither gyfan i Wilson. Bu Catherine Jones farw yn 1786 yn 84 oed ac fe'i claddwyd yn mynwent eglwys Llanferres 12 Medi yn ôl Ieuan Iâl. Dyma'r Catherine Jones oedd wedi rhoi cymorth sylweddol tuag at adeiladu eglwys Llanferres yn 1774 a thuag at sefydlu Ysgol Rad i blant y plwyf yn 1763. Mae'n werth nodi fod John Wilson, brawd Richard Wilson, yn byw ger Colomendy ar y pryd a'i fod yntau hefyd wedi chwarae rhan amlwg iawn yn y gwaith o ailadeiladu eglwys Llanferres yn 1774. Bu John Wilson farw yn 75 oed yn Ionawr 1785 ac fe'i claddwyd ar 28 Ionawr ym mynwent eglwys Yr Wyddgrug.

Mae'n amlwg felly mai dychwelyd at ei deulu a wnaeth Richard Wilson pan ddaeth i'r Colomendy tua 1781. Mae'n fwy na thebyg mai dychwelyd yno i gael ymgeledd a wnaeth oherwydd yr oedd yn dal i dderbyn £35 y flwyddyn (£50 llai y £15 a delid i'r Llyfrgellydd Cynorthwyol) yn rhinwedd ei swydd fel Llyfrgellydd y Royal Academy.

Byr fu arhosiad olaf Richard Wilson gyda'i frawd a'i gyfnither oherwydd bu farw'n sydyn 12 Mai 1782 (11 Mai yn ôl cofnodion cyfarfod o Gyngor y Royal Academy a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 1782) ac fe'i claddwyd ym mynwent Yr Wyddgrug 15 Mai 1782. Yn dawel yn yr ardal lle'r oedd ei wreiddiau a'i deulu y bu farw Wilson, yr oedd wedi dod adref. Ymhen rhai blynyddoedd trefnodd Mrs Richard Garnons, Colomendy, nith i Catherine Jones a etifeddodd ei hystâd ar ei marwolaeth yn 1786, fod carreg goffa yn cael ei rhoi ar fedd Richard Wilson. Dyma'r arysgrif roddwyd arni:

*'The remains of Richard Wilson, Esq., Member of the Royal Academy of Artists, interred May 15th, 1782, aged 69.'*

* * * *

YM MIS Tachwedd 1848 sefydlwyd cymdeithas yn Yr Wyddgrug o'r enw Cymdeithas Cymreigyddion Y Wyddgrug. Erbyn 1851 yr oedd y Gymdeithas yn teimlo'n ddigon hyderus i drefnu eisteddfod ac un o'r cystadlaethau yn yr eisteddfod honno oedd beddargraff i Richard Wilson. Fe ddaeth 26 ymgais i law i'w beirniadu gan Nicander a Chaledfryn. Mewn cystadleuaeth weddol wan dau ddaeth i'r brig, sef Zeucarili a Reynolds ac wedi cryn grafu pen dyfarnwyd Reynolds, sef John Williams 'Ioan Madog' yn fuddugol. Dyma'r ddau englyn:

*O foreu'i yrfa eirian, — rho'i oleu*
*Ei athrylith allan, —*
*Darluniai — dilynai'n lân*
*I'r linell ar ôl anian.*

*Yn llaw ei oes bu'n llesol, — dyg iddi*
*Deg addysg gelfyddol;*
*A'i gywir waith geir o'i ôl*
*A syna'r oes bresenol.*

O dan y ddau englyn yng nghyfrol y cyfansoddiadau ceir nodyn tra diddorol:

*'. . . O barch i goffadwriaeth y Darluniedydd fe gerfiwyd yr Englynion uchod ar ei fedd-faen yn mynwent y Wyddgrug gan Eos Powys dros y Cymreigyddion . . .'*

Y garreg fedd hon sydd yn sefyll ym mynwent Yr Wyddgrug hyd heddiw ac at hon yr oeddwn yn anelu pan euthum ar bererindod at ei fedd. Bu cwmni o seiri maen o Gaer yn ei hadfer yn weddol ddiweddar. Tra ym mynwent Yr Wyddgrug daeth cyfle i ymweld â'r eglwys hefyd i gael golwg ar y ffenestr goffa i Wilson sydd yno. Cwblhawyd y ffenestr yn 1924 wedi i Esgob Bangor a E. V. Lucas godi digon o arian i ychwanegu portreadau o Ddewi Sant Cymru a Sant Padrig Iwerddon at y portreadau o Sant Andrew yr Alban a Sant Siôr Lloegr a oedd wedi eu gosod yno yn barod gan gwmni Burlison a Grylls o Lundain.

Y mae yna yng nghyffiniau'r Wyddgrug gofeb ddiddorol arall i Richard Wilson, sef arwydd tafarn. Dyma fel y mae Ieuan Iâl yn cyfeirio at y llun yn rhifyn Tachwedd 1833 o *Y Gwyliedydd*:

*'. . . Efe hefyd a dynodd yr arwyddion nodedig a elwir y Loggerheads, yr hwn enw a roddir i'r Tafarndy gerllaw y Colomendy, oddiwrth yr achlysur fod yr arwyddlun yn grogedig uwchlaw y drws. Llun dau ben, gwegil y'ngwegil, ydyw, â'r geiriau hyn o danodd, "We three be Loggerheads". Dywedir fod y penau hyn yn wir ddarluniau o ddau gyfaill i Wilson yn byw yn y Wyddgrug.'*

Mae Edward Pugh y paentiwr map-ddarluniau a golygfeydd y dywedir iddo gael ei eni yn Rhuthun (ac a gladdwyd yno ar 20 Gorffennaf 1813) ac awdur y gyfrol adnabyddus *Cambria Depicta* a gyhoeddwyd yn 1816 yn cyfeirio at yr arwydd hefyd:

*'I came to Loggerheads, a public house on the road. Here is a sign on the doorway painted by their incomparable artist, the late Mr Wilson, R.A.'*

Mae'r arwydd gwreiddiol yn dal i fod yn y dafarn. Erbyn heddiw, ac ers tua 1928 o ran hynny, y mae yn cael ei gadw i fewn yng nghlydwch y dafarn. Ffacsimili modern yw'r arwydd sydd y tu allan heddiw. Mae'n siŵr fod rhai o ddarllenwyr y cylchgrawn hwn wedi ei weld oherwydd gwelais rai ohonynt yn yr adeilad adeg Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn! Er bod y llun gwreiddiol wedi cael ei lanhau yn weddol ddiweddar gan arbenigwyr o Oriel Walker yn Lerpwl nid yw mewn cyflwr da o gwbl. Fe gaiff Ieuan Iâl ddweud y stori hon eto:

*'. . . Mae'r arwyddlun hwn wedi ei anffurfio yn gywilyddus; yr achos o'r anffurfiad hwn sydd fel y canlyn: Ar ol i Wilson ei liwio, dywedodd, os cai doad drosto o'r cyfryw olew (gan ei enwi) pan fyddai yn dechreu cael ei niweidio gan yr hîn, y byddai hwn yn sicr o'i ddiogelu yn ddilwgr. Y'mhen blynyddau ar ôl hyn, pan ddechreuasai yr arwyddlun lychwino, digwyddodd i ymddiddan yn ei gylch gyfodi y'ngwydd rhyw fwngler o liwydd arwyddluniau, yr hwn a ddywedodd, os caniateid iddo ef roddi toad o olew drosto, yr adferid ef i'w harddwch a'i greider dechreuol; caniatâd a gafodd, a'r canlyniad o hyny yw ei ymddangosiad gwywedig yn awr.'*

Y mae traddodiad lleol yn yr ardal hyd heddiw fod Wilson wedi llunio sawl arwydd tafarn yn y cylch, hen arwydd y Ship Inn yn Llong er enghraifft. Mae'r un traddodiad yn honni mai gwneud yr arwyddion hyn i glirio ei ddyledion oedd Wilson!

* * * *

DYCHWELYD at ei deulu yn y Colomendy yn hen ŵr mewn cyflwr go druenus wnaeth Richard Wilson yn 1781 ac o gofio hynny mae'n sefyll i reswm mai ychydig iawn o luniau a wnaeth yn ystod blwyddyn olaf ei fywyd. Serch hynny mae'n sefyll i reswm y gellid disgwyl y byddai yna luniau o waith Wilson yno. Y mae yna lawysgrif yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru sydd yn cadarnhau fod gan Wilson beth o'i waith yn ei feddiant ar ddiwedd ei oes (Llawysgrif Ll.G.C. 1564C):

*'A book of prints lying on a window seat at Colomendu was his constant ammusement, he examined it 20 or 30 times in a day and each time asked, "Where did you get this, it is very valuable?"'*

Yr un yw tystiolaeth Thomas Wright awdur y bywgraffiad o Wilson a gyhoeddwyd yn 1824. Fe ymwelodd Wright â'r Colomendy rywdro cyn 1824 ac meddai:

*'At Colomondie I observed several of Wilson's pictures in an unfinished state, with two or three merely in dead colour; of one of them the subject was the Atalanta, of which, as is well known, there is an engraving; also a small picture, a view of the rock and river in the neighbourhood. These pictures were brought by Wilson, upon his retiring from London.'*